**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

**Crynodeb o gofnodion y cyfarfod misol**

**Dyddiad:**

6ed Mehefin, 2024

**Presennol**

Richard Williams (Cadeirydd), John Jones, Enid Egginton, Michael Jones, Clifford Williams (Garndolbenmaen), Raymond Jones (Pentrefelin), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Gwenno Emlyn Huws, Iddon Edwards (Penmorfa), Gwiylm Evans (Prenteg), Cynghorydd June Jones (Cyngor Gwynedd) a Chynghorydd Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd)

**Ymddiheuriadau**

Sarah Jones (Pentrefelin), Jess Williams (Penmorfa)

**Datgan Buddiant**

Richard Parry – Eitem 12
Clifford Williams – Eitem 14
Megan Lloyd Williams – Eitem 10 ac Eitem 15
Gwilym Evans – Eitem 10
Cynghorydd June Jones – Eitem 7
Cynghorydd Stephen Churchman – Eitem 7

**Penderfyniadau**

Rheolau Ailgylchu Newydd

Gadawodd y Cynghorydd June Jones a Stephen Churchman yr ystafell wrth drafod ac yn gwneud penderfyniad ar y mater yma. Cyflwynwyd meintiau a phrisiau gwahanol gan dri chwmni: Veolia, Williams a Williams Cyf a Chyngor Gwynedd. Penderfyniad: Cael bin gwastraff cyffredinol (770 litr) a phlastig (770 litr) i Fynwent Bethel gan gwmni Williams a Williams Cyf gan mai hwy oedd y rhataf. GEH yn cynnig a JT yn eilio.

Mynwent Prenteg

Adroddwyd bod cwyn wedi'i dderbyn am gyflwr y ffordd i'r fynwent. GH yn cynnig bod yna dri chynghorydd yn ymweld ar fynwent. MLW yn eilio. Y cynghorwyr sydd i ymweld yw GEH, EE (Bryncir) a'r Cynghorydd June Jones.

Arian Cylch Trafod yr Alltwen

Gadawodd MLW a GE yr ystafell. Ym mis Awst 2023 bu i Gylch Trafod yr Alltwen gau i lawr ac roedd arian dros ben yn y cyfrif - swm o £1,685.76. Fe gysylltodd GE, Is-gadeirydd y Cylch Trafod â JJ, Cadeirydd y Cyngor Cymuned ar y pryd i ofyn a fyddai'n bosib rhoi'r arian yma i gadw yng nghyfrif banc y Cyngor Cymuned er mwyn gallu cau cyfrif banc y Cylch Trafod i lawr.

Penderfyniad Pwyllgor y Cylch Trafod ar y 31ain o Orffennaf oedd dyrannu'r arian fel a ganlyn:

£400.00 yr un i Neuadd Goffa Penmorfa, Canolfan Prenteg, Canolfan Pentrefelin a Chanolfan Gymdeithasol Golan a chyflwyno'r £85.76 oedd yn weddill i Gronfa Cae Chwarae Penmorfa. Gwnaed y penderfyniad ariannol ar sail y ffaith mai pobl o'r cymunedau hynny oedd y mwyafrif o aelodau'r Cylch Trafod.

Cynllun Hyfforddi

Cyflwynwyd y Cynllun Hyfforddi. Awgrymwyd bod hyfforddiant yn cael ei gynnwys ar agenda a'i adolygu yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor Cymuned. MLW yn cynnig a MJ yn eilio.

Cynllunio

**Rhif Cais**:NP2/16/442

**Lleoliad:** Coed Hendre Ddu, Cwm Pennant, Garndolbenmaen, LL51 9AX

**Disgrifiad:** Creu cyswllt llwybr trwy goetir i gynnwys llwybrau pren uchel, cyferbwyntiau, meinciau paneli a dehongli, lloches a portaloo.

Mae pryderon enfawr am y cais yma. Y penderfyniad oedd gwrthwynebu'r cais yma am y rhesymau canlynol:

- Diffyg parcio
- Risg Tân
- Archwiliad safle wedi'i wneud ym mis Chwefror
- Diffyg ymgynghoriad gyda chymdogion
- Mae'n or-ddatblygiad yng nghefn gwlad.
- Y ffordd i Gwm Pennant yn gul – mae yna beryg i ddamweiniau ddigwydd.
- Yr effaith negyddol all gael ar bobl leol, diwylliant ac iaith yr ardal.

Clerc i adrodd yn ôl yn gwrthwynebu'r cais ac yn adrodd am y pryderon uchod ac i ofyn a yw'r swyddog cynllunio wedi gwneud ymweliad safle.

Ceisiadau am arian:

Ysgol y Gorlan, Tremadog - Penderfynwyd talu £260.00 allan o Gronfa'r Cadeirydd tuag at gostau mynediad i'r Maes ar y ddau ddiwrnod maent yn cystadlu. MJ yn cynnig ac IE yn eilio. Ni fu i MLW gymryd rhan yn y drafodaeth yma.